

Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Tachwedd
2025

Amser: 08.57 – 09.10

Preifat, Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Paul Davies AS Heledd Fychan AS Jane Hutt AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Steffan Lewis (Dirprwy Clerc)
Eraill yn bresennol	David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.



2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.05pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.00pm.

3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2025

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Deallusrwydd Artiffisial (AI) yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch: Dysgu a Sgiliau yn y Carchar (45 munud)

Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2025

- Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (5 munud)

3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf – wedi'i diwygio

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

Dydd Mercher 19 Tachwedd 2025 –

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Pedwerydd Adroddiad ar Hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9 (15 munud)

Dydd Mercher 26 Tachwedd 2025 –

- ~~Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Adam Price (60 munud)~~ – gohiriwyd tan 10 Rhagfyr 2025
- Dadl ar ddeiseb P-05-1456: Ymchwiliad cyhoeddus llawn i gau canolfannau Ambiwylans Awyr Cymru yng nghanolbarth a gogledd Cymru (30 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl ar ddeiseb *P-05-1456: Ymchwiliad cyhoeddus llawn i gau canolfannau Ambiwylans Awyr Cymru yng nghanolbarth a gogledd Cymru*, oedd wedi cael ei oedi oherwydd achosion adolygiad barnwrol.

3.4 Dadleuon Agored: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y pynciau a gynigiwyd a chytunodd i amserlennu'r pwnc canlynol ar 19 Tachwedd 2025:

Julie Morgan: NNDM9046 A fyddai treth gyfoeth yn gweithio i Gymru?

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r ddadl hon yn nodi diwedd y treial y cytunwyd arno ac mae'n debygol mai dyma'r Ddadl Agored olaf i'w threfnu yn ystod tymor y Senedd hwn.

Yn dilyn yr adolygiad interim a gynhaliwyd ar 23 Medi, nododd y Rheolwyr Busnes nad oeddent yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o'r fformat ar hyn o bryd. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gadw Dadleuon Agored yn eu fformat presennol o fewn y canllawiau perthnasol i'w defnyddio o bosibl mewn tymhorau Senedd yn y dyfodol, yn ôl disgresiwn Pwyllgorau Busnes yn y dyfodol.

4 Deddfwriaeth

4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trefnydd a chytunodd i wneud yr hyn a ganlyn:

- Cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 16 Ionawr 2026 i gyflwyno adroddiad;
- Cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Llysoedd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 16 Ionawr 2026.

5 Unrhyw Fater Arall

Nododd y Rheolwyr Busnes fod y Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid wedi'u hailgyhoeddi yr wythnos diwethaf a'u dosbarthu i bob Aelod, yn dilyn cytundeb y Senedd ar newidiadau i Reol Sefydlog 17 ynghylch pleidleisio mewn pwyllgorau.

Felly, mae'r diwygiadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y Pwyllgor Busnes – gan gynnwys disgwyliadau mewn perthynas â chyfranogiad wyneb yn wyneb gan Aelodau mewn trafodion cyfnodau diwygio ar ddeddfwriaeth – bellach mewn grym.